Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Rhagfyr 2ail 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, December 2nd 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* – Caerwyn Owen, Jonathan Rees, Teifi Davies, Elen Mathias, William Anwyl, Gareth Evans, Delfryn Owens, Gwyn James

**1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>**
Cynghorwyr/*Councillors* – Melva Phillips, Barri Davies, Walwyn Jones

**2 <u>Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests</u>**
Datganodd Gwyn ddiddordeb ynghylch cais cynllunio yn y cyfarfod hwn
*Gwyn declared an interest in a specific planning application tonight*

**3 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>**
DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

**4 <u>Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 4/11/25</u>**
Cynigiwyd gan Caerwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Jonathan
*Deemed to be correct by Caerwyn and seconded by Jonathan*

**5 <u>Materion yn Codi/Matters Arising</u>**

i) Toiledau Tresaith/*Tresaith Toilets*
Yn dilyn penderfyniad yr aelodau i wrthod derbyn cyfrifoldeb am gynnal a chadw toiledau Tresaith yn y cyfarfod diwethaf, gohebodd y Clerc â'r Cyngor Sir er mwyn ei hysbysu o'n penderfyniad. Mynegwyd hefyd ein parodrwydd i wneud cyfraniad ariannol pellach tuag at gost eu cynnal dros y flwyddyn a ddaw.
*Following the members' decision to refuse the option of maintaining the public toilets at Tresaith, the Clerk corresponded with the County Council to inform them of our decision. He also noted our willingness to make a further financial contribution towards the maintenance cost over the coming year.*

ii) Cais Cynllunio Pencwm/*Pencwm Planning Application*
Gohebodd y Clerc â'r Adran Gynllunio er mwyn mynegi anfodlonrwydd a gwrthwynebiad yr aelodau i'r cais cynllunio uchod a gyflwynwyd y mis diwethaf. Nodwyd arwyddocad hanesyddol a phensaerniol yr adeilad.
*The Clerk corresponded with the Planning Department in order to express our opposition to the above mentioned planning application submitted last month. The property's historical and architectural features were noted.*

iii) Draeniau Sarnau Park/*Sarnau Park Drainage*

Cafwyd cadarnhad oddi wrth y Cyngor Sir nad oedd rhwydwaith draenau ger Sarnau Park yn gweithio'n effeithlon, a bod rhaid gwneud gwaith atgyweiriol arnynt. Dyma beth sydd wedi achosi i'r dŵr gronni yno yn ddiweddar.

*Confirmation was received from Ceredigion Council that the drainage network near Sarnau Park isn't functioning correctly. Work will commence on restoring the drainage in the future. This is what has caused water to accumulate there recently.*

## 6 Cyllid/Finance

i) Balans/*Balance*

| | |
|---|---|
| Balans Blaenorol/*Previous Balance* | £22554.85 |
| Taliadau a wnaed/*Payments made* | |
| Graham Jones | £690.00 |
| Cyflog Clerc/*Clerk Salary* | £780.00 |
| Costau Bancio/*Banking Charges* | £ 4.75 |
| Balans Newydd/*New Balance* | £21080.10 |

ii) Taliadau i'w Cymeradwyo/*Payments to be Approved*

Ad-daliad Gareth Evans *Reimbursement (*Taliad Bois y Mowo *Payment*)
£90.00
Cymeradwyd yn unfrydol/*Unanimously Approved*

iii) Cais am Gymorth Ariannol/*Application for Financial Contribution*

Derbyniwyd cais oddi wrth drefnwyr Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis.
Datgelodd Elen fudd personol ynghylch y mater hwn.
Cytunodd yr aelodau yn unfrydol i gyfrannu £150 tuag at gynnal yr Eisteddfod.
*An application was received from the organisers of Eisteddfod Rhydlewis.*
*Elen declared a personal interest in this matter.*
*The members unanimously agreed to contribute £150 towards the Eisteddfod.*

iv) Cais am fatri i ddeffibrilwr/*Application for Defibrilator Battery*

Derbyniwyd cais oddi wrth Gaffi Emlyn, Tanygroes am fatri newydd i'r deffibrilwr y tu allan i'r Caffi. Cytunodd yr aelodau i brynu'r batri ar eu rhan gyda Delfryn yn cynnig a Teifi yn eilio.

*A request was received from Caffi Emlyn, Tanygroes for a replacement battery to the defibrillator outside the Caffi. The members unanimously agreed to the request with Delfryn proposing and Teifi seconding the motion.*

v) Gosod Praesept 2026/27/*Setting Precept 2026/27*

Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Yn dilyn y penderfyniad a wnaed ynghylch tai bach Tresaith yn ddiweddar, ynghyd ag ystyriaethau eraill, cytunwyd yn unfrydol i rewi cyfanswm y Praesept a'i gadw ar gyfanswm eleni sef £15000.00.

*The members had a comprehensive debate about our future priorities next year. Following our decision regarding the toilet provision at Tresaith, as well as other considerations, it was unanimously agreed to keep the amount at the present level, namely, £15000.00.*

vi) Cyflog Clerc 2026/27/*Clerk Salary 2026/27*

Mynegodd yr aelodau yr awydd i adolygu cyflog y Clerc ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn dilyn trafodaeth cytunodd yr aelodau i godi'r cyflog misol o £195 i £300. Cynigiwyd hyn gan William a'i eilio gan Gwyn. Cytunodd y Clerc i ymgynghori gyda DMB Davies er mwyn cadarnhau'r trefniant hwn.

*The members expressed their desire to review the Clerk's salary for next year. Following a discussion the members agreed to raise the monthly salary from £195 to £300. It was proposed by William and seconded by Gwyn. The Clerk agreed to liaise with DMB Davies in order to confirm this arrangement.*

**7 Cynllunio/Planning**

i) A250887 Beddgeraint, Brongest

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

ii) A250886 Bron y Glyn, Glynarthen

Mynegodd Gwyn ddiddordeb yn y mater hwn.

*Gwyn disclosed a personal interest in this matter.*

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

iii) A250822 Pwntan House, Tanygroes

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

**8 Gohebiaeth/Correspondence**

DIM GOHEBIAETH/NO CORRESPONDENCE

**9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Golau Stryd yn Sarnau/*Street Lights at Sarnau*

Crybwyllodd Delfryn fod un o oleuadau'r ffordd yn Sarnau yn fflachio'n ddi-baid neu ddim yn gweithio o gwbl. Rhif y golau yw 139. Mae wedi ceisio cysylltu â'r Asiantaeth Ffyrdd ond heb dderbyn ateb eto. Cytunodd y Clerc i ohebu â'r Asiantaeth ar ran y Cyngor Cymuned.

*Delfryn referred to a continuously flickering street light at Sarnau or at worse not even working at all. Its number is 139. He has attempted to contact the Highway Agency but has not received a reply. The Clerk agreed to correspond on behalf of the Community Council.*

ii) Cyfarfod ym Mhenmorfa, Aberaeron/*Meeting at Penmorfa,Aberaeron*

Cynhelir cyfarfod cyn bo hir ym Mhenmorfa i drafod cyflwr a chyfleusterau'r A487 yng Ngheredigion. Bydd Gwyn yn bresennol i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod.

*A meeting will be held soon at Penmorfa in order to discuss road safety and amenities along the A487 in Ceredigion. Gwyn will be present in the meeting as our delegate.*

**10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth, Ionawr 6ed 2026 am 7.30 y.h.

*The next meeting will be held on Tuesday, January 6th 2026 at 7.30 p.m.*